Cofnodion cyfarfod cyffredin **CYNGOR TREF RHUTHUN** a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Ffordd Wynnstay, Rhuthun, nos Lun, 16 Gorffennaf 2018, am 7:00pm. Newidiwyd y lleoliad i Neuadd y Dref, Ffordd Wynnstay, Rhuthun am 7:10pm oherwydd pryderon am ddiogelwch tân.

PRESENNOL: Y Cynghorwyr Ian Lewney (Maer) a Gavin Harris (Dirprwy Faer)
Y Cynghorwyr Keiran Allsopp-Robson, Stephen Beach, Ken Hawkins, John Wynne Hughes, Menna Jones, Robert Owen-Ellis, Anne Roberts, Dave Snape, Heather Williams, Ifan Wyn ac Emrys Wynne.

57. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd Rosie Hughes.

58. CYFLWYNIAD YNGHYLCH GOBLYGIADAU'R RHEOLIAD DIOGELU DATA CYFFREDINOL (GDPR) I AELODAU ETHOLEDIG

Croesawodd y Maer Lisa Jones, Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol gyda Chyngor Sir Ddinbych, i gynghori'r aelodau sut i gydymffurfio gyda gofynion GDPR. Amlinellodd y gofynion o ran y Cyngor Tref ac i gynghorwyr unigol a dywedodd eu bod yn gweithio ar Nodyn Briffio i Gynghorwyr ar y pwnc hwn, a fyddai'n cael ei rannu gyda Chynghorwyr Tref a Chymuned. Cafodd aelodau'r cyfle i holi cwestiynau, a gofynnwyd am ddefnyddio cyfeiriadau e-bost personol a chofrestru unigol gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Diolchodd y Maer iddi am gyflwyniad diddorol a defnyddiol.
PENDERFYNWYD*: nodi'r cyflwyniad ac aros am y Nodyn Briffio i gael rhagor o wybodaeth.*

59. DATGAN BUDDIANNAU

Cafwyd datganiad o fudd personol fel Llywodraethwr gan y Cynghorydd Robert Owen-Ellis o ran eitem 10 – Cais am gymorth ariannol gan Ysgol Brynhyfryd.

60. ADRODDIAD Y MAER

Adroddodd y Maer ei fod wedi bod yn y digwyddiadau a ganlyn.

13.06 Beirniadu'r gystadleuaeth bwgan brain
20.06 Cyngerdd lansio Gŵyl Gerdd Ryngwladol Llanelwy yn yr Eglwys Gadeiriol
23.06 Carnifal Rhuthun
26.06 Noson caws a gwin y Maer yn y Myddelton Grill on the Square
29.06 Croesawu'r ymwelwyr o Briec yn y Ganolfan, Llanfwrog
30.06 Pryd o fwyd gyda'r criw o Briec a Chymdeithas Efeillio Rhuthun yn Café R
01.07 Cyngerdd Côr y Porthmyn yn y Capel Presbyteraidd Saesneg, Ffordd Wynnstay
07.07 Ffair Haf Ysbyty Cymunedol Rhuthun
08.07 Gwasanaeth Sul y Maer yn Eglwys Sant Pedr a chinio yng Nghlwb y Dyffryn

61. ADRODDIADAU'R AELODAU

Cyng. Gavin Harris (Dirprwy Faer)	Cyfarfod gyda'r Cynghorydd Emrys Wynne a swyddog o adran Buddsoddi mewn Busnes Cyngor Sir Ddinbych a gwasanaeth a chinio Sul y Maer
Cyng. Keiran Allsopp-Robson	Carnifal Rhuthun a gwasanaeth a chinio Sul y Maer
Cyng. Stephen Beach	Carnifal Rhuthun, noson caws a gwin y Maer, Gŵyl Rhuthun, noson y Gymdeithas Efeillio yng Nghastell Rhuthun a chyfarfod Fforwm dros 50 mis Gorffennaf yn Llys Awelon
Cyng. Jim Bryan	Carnifal Rhuthun, noson caws a gwin y Maer, Gŵyl Rhuthun a gwasanaeth a chinio Sul y Maer
Cyng. Ken Hawkins	Noson caws a gwin y Maer, Gŵyl Rhuthun a gwasanaeth a chinio Sul y Maer
Cyng. John Hughes	Gwasanaeth a chinio Sul y Maer
Cyng. Rosie Hughes	Gwasanaeth a chinio Sul y Maer

Cyng. Menna Jones	Penwythnos digwyddiadau ymweliad y Llydawyr, 29 Mehefin – 3 Gorffennaf, noson caws a gwin y Maer, cyngerdd plant ysgolion Bro Rhuthun, Gŵyl Rhuthun, Cyfarfod Blynyddol y Banc Bwyd a gwasanaeth a chinio Sul y Maer
Cyng. Robert Owen-Ellis	Seremoni Cofnod Cyrhaeddiad Blwyddyn 11 Ysgol Brynhyfryd, noson caws a gwin y Maer, cyfarfod Cymdeithas Llywodraethwyr Ysgolion Sir Ddinbych, Cyngerdd Haf disgyblion Cyfnod Sylfaen Ysgol Pen Barras, cyfarfod Iechyd a Diogelwch Ysgol Pen Barras, noson wobrwyo llwyddiant Blynyddoedd 7-10 Ysgol Brynhyfryd, cyfarfod blynyddol Banc Bwyd Dyffryn Clwyd yng Nghanolfan Awelon, cyfarfod gyda Geraint Davies, Adran Addysg Cyngor Sir Ddinbych ynghylch materion iechyd a diogelwch yn gysylltiedig â safle newydd Ysgol Pen Barras a phedair sesiwn Banc Bwyd
Cyng. Anne Roberts	Cyfarfodydd Ymlaen Rhuthun, beirniadu'r gystadleuaeth bwgan brain gyda'r Maer, noson yn Lifestyle Garment Spa, cyfarfod Cymdeithas Ddinesig Rhuthun a'r Cylch, Carnifal Rhuthun, cyflwyno Gwobr Quayle Cymdeithas Ddinesig Rhuthun a'r Cylch, noson caws a gwin y Maer, Top Dre Gŵyl Rhuthun a gwasanaeth a chinio Sul y Maer
Cyng. Dave Snape	Cyfarfodydd Ymlaen Rhuthun, Carnifal Rhuthun, Gŵyl Rhuthun, cyfarfod Pwyllgor Rheoli Theatr John Ambrose a gwasanaeth a chinio Sul y Maer
Cyng. Heather Williams	Noson caws a gwin y Maer a Phwyllgor Rheoli Canolfan Awelon
Cyng. Ifan Wyn	Gŵyl Rhuthun a gwasanaeth a chinio Sul y Maer
Cyng. Emrys Wynne	Tacluso maes parcio Stryd y Farchnad, cyfarfod Llywodraethwyr Ysgol Borthyn, 28 Mehefin – 3 Gorffennaf: penwythnos o ddigwyddiadau ar gyfer yr ymwelwyr o Lydaw a dathlu pen-blwydd Cymdeithas Efeillio Rhuthun a'r Cylch yn 25 oed

62. COFNODION Y CYFARFOD CYFFREDIN BLAENOROL

PENDERFYNWYD*: cadarnhau bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Mehefin 2018 yn gywir.*

63. MATERION YN CODI

Dywedodd y Cynghorydd Heather Williams y byddai'r cais am statws Croesawu Bysiau Moethus yn Rhuthun yn cael ei gyflwyno erbyn diwedd mis Gorffennaf. Roedd y Cynghorydd Rosie Hughes yn parhau i aros am wybodaeth ynghylch y gosodiadau Milwr Mud.

64. COFNODION Y PWYLLGOR CYNLLUNIO A DATBLYGU

Tynnodd Gadeirydd y pwyllgor sylw at eitemau o gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Gorffennaf 2018.

PENDERFYNWYD*: derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Gorffennaf 2018.*

65. COFNODION Y PWYLLGOR AMWYNDERAU

Tynnodd Gadeirydd y pwyllgor sylw at eitemau o gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Gorffennaf 2018.

PENDERFYNWYD*: derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Gorffennaf 2018.*

66. CAIS AM GYMORTH ARIANNOL

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried cais am gymorth ariannol gan Ysgol Brynhyfryd, Rhuthun, am £1,500.00 tuag at gostau dwy gysgodfan i ddisgyblion. Trafododd yr aelodau'r cais yn fanwl.

PENDERFYNWYD*: gwrthod y cais gan y gallai osod cynsail ac roedd pryderon y byddai'r cysgodfannau'r hygyrch y tu allan i oriau ysgol ac y gallent gael eu difrodi neu eu camddefnyddio.*

67. NODDI CLWB PEL-DROED RHUTHUN

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried Cyngor Tref Rhuthun yn parhau i noddi Clwb Pel-droed Rhuthun trwy gyfrwng yr hysbysfwrdd wrth ochr y cae ar gost o £250.00.
PENDERFYNWYD*: yn unfrydol i barhau i noddi ar gost o £250.00.*

68. DYFODOL RHUTHUN 2

Gofynnodd y Cynghorydd Gavin Harris i aelodau anfon unrhyw sylwadau ar gynnwys yr adroddiad diweddaru drafft ac esboniodd y byddai Ymddiriedolaeth Sefydliad Castell Rhuthun a phrosiectau grwpiau amrywiol eraill yn cael eu cynnwys. Unwaith y bo'r sylwadau wedi'u derbyn a'r fersiwn derfynol wedi'i chwblhau byddai'n cael ei chyfieithu.
PENDERFYNWYD*: nodi'r diweddariad.*

69. TREFNIADAU AR GYFER CYFARFOD Y PWYLLGOR PWERAU BRYS

Gofynnwyd i'r aelodau gytuno ar ddyddiad cyfarfod ym mis Awst i ymdrin ag unrhyw faterion cynllunio a chyfrifon i'w talu. Awgrymodd y Maer ddydd Gwener, 17 Awst, fel dyddiad addas a chytunwyd ar hyn.
PENDERFYNWYD*: cynnal cyfarfod y Pwyllgor Pwerau Brys ddydd Gwener, 17 Awst am 10am gyda'r Maer a'r Dirprwy Faer, a byddai'r cyfarfod yn agored i'r holl aelodau.*

70. DATGANIAD ARIANNOL

Gofynnwyd i'r aelodau gymeradwyo'r Datganiad Ariannol am y cyfnod yn diweddu 30 Mehefin 2018.
PENDERFYNWYD: *derbyn a chymeradwyo'r Datganiad Ariannol am y cyfnod yn diweddu 30 Mehefin 2018.*

71. CYFRIFON I'W TALU

Tynnodd y Clerc sylw at y ffaith bod dwy siec yn sieciau yn lle rhai a gyflwynwyd gyntaf o'r cyfrif banc Barclays, sef y rhai i Gymdeithas Ddinesig Rhuthun a'r Cylch ac i Don Jackson-Wyatt.
PENDERFYNWYD*: cymeradwyo talu'r eitemau a ganlyn.*

100012	Cymdeithas Sioe Rhuthun	Cymorth ariannol tuag at gynnal Sioe 2018		£500.00
100013	Llanfwrog CIC	Torri glaswellt – Gorffennaf 2018		£352.26
100014	Viking	100 o stampiau ail ddosbarth a silffoedd ffeilio	*	£73.47
100015	Clwb y Dyffryn	Cinio dau gwrs Sul y Maer		£1,262.25
100016	Canda Copying Ltd	Rhentu llungopiwr a chopïau isafswm	*	£41.90
100017	Canda Copying Ltd	Copïau du a gwyn ychwanegol	*	£16.69
100018	Canda Copying Ltd	Copïau lliw ychwanegol	*	£28.04
100019	Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi	Treth Incwm ac yswiriant gwladol		£295.55
100020	Marian Rees	Cyfieithu ar y pryd – cyfarfod cyhoeddus yr Hen Lys	*	£36.00
100021	Marian Rees	Cyfieithu ar y pryd – cyfarfodydd Pwyllgor a Chyffredin mis Gorffennaf	*	£180.00
100022	Public Sector Deposit Fund	Trosglwyddo'r arian o gyfrif Undeb Credyd Cambrian		£44,996.00
100023	Cymdeithas Cynghorau Lleol Gogledd a Chanolbarth Cymru	2 ginio yn dilyn Cyfarfod Blynyddol a chyfarfod chwarterol y Gymdeithas yn y Neuadd Ddinesig, Cei Connah, 20.07.18		£32.00
100024	Cymdeithas Ddinesig Rhuthun a' r Cylch	Cymorth ariannol tuag at Ddrysau Agored Rhuthun – siec yn lle siec flaenorol		£1,500.00
100025	Don Jackson-Wyatt	Ffotograffiaeth yn y Cyfarfod Blynyddol		£100.00
D.U.	BT Business	Gwasanaethau ffôn a band eang	*	£170.28

72. ADNEWYDDU AELODAETH – CYMDEITHAS CYNGHORAU LLEOL GOGLEDD A CHANOLBARTH CYMRU

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried adnewyddu aelodaeth y Gymdeithas uchod ar gost o £55.00.
PENDERFYNWYD*: adnewyddu aelodaeth Cyngor Tref Rhuthun am flwyddyn arall.*

RHAN DAU

Cynigiwyd ac eiliwyd y dylid trafod yr eitem a ganlyn yn Rhan Dau, oherwydd natur gyfrinachol y trafodaethau.

73. DIWEDDARIAD YNGHYLCH YR HEN LYS

Esboniodd y Cynghorwyr Ian Lewney a Gavin Harris eu bod wedi bod yn gweithio ar y ffurflen Cymeradwyaeth i Fenthyca i'w chyflwyno i Lywodraeth Cymru a'r cynllun busnes yn cynnwys tair sefyllfa ariannu posibl. Gofynnodd y Cynghorydd Harris i'r aelodau gymeradwyo gofyn i Cadwyn Clwyd ddarparu cyngor ac arweiniad cyn cyflwyno'r cynllun busnes. Cadarnhawyd bod y gwaith papur yn gysylltiedig â'r cytundeb rhagbrynu wedi'i lofnodi a dylai fod yn ei le yn fuan.
PENDERFYNWYD*: nodi'r diweddariad a chysylltu gyda Cadwyn Clwyd o ran y cynllun busnes arfaethedig.*

74. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

PENDERFYNWYD*: cadarnhau mai dyddiad y cyfarfod cyffredin nesaf fydd nos Lun, 24 Medi 2018 am 7.00pm.*